

CYFARFOD	Cyngor
DYDDIAD	6 Hydref 2022
Aelod Cabinet	Cynghorydd Ioan Thomas
TEITL	Penderfyniad Brys Cabinet
AMCAN	Er Gwybodaeth
AWDUR	Swyddog Monitro

CEFNDIR

1. Cyflwynwyd adroddiad er cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer newidiadau posib i'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi a thai gwag i'r Cabinet ar y 27ain o Fedi 2022 . Oherwydd effaith gohirio y Cabinet yn sgil marwolaeth y Frenhines byddai gweithredu y cyfnod galw mewn ar gyfer penderfyniadau yn golygu llithriad o sylwedd yn y dyddiad cychwyn cyfnod ymgynghori. Gan fod yr amserlen yn gaeth a phwysigrwydd gallu cychwyn proses ymgynghori yn amserol roedd angen sicrhau fod y penderfyniad yn weithredol yn syth.

PENDERFYNIAD BRYG

2. O ganlyniad, bu'n ofynnol i'r Cabinet ei ddynodi yn benderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad na fyddai y drefn galw mewn i Graffu yn berthnasol iddo. Mae hyn yn caniatáu i benderfyniad Cabinet fod yn weithredol yn syth ac yn benodol heb ddisgwyl am bum diwrnod gwaith clir o gyhoeddi y Rhybudd Penderfyniad cyn gellir ei weithredu. Mae'r drefn yma yn amodol ar gydsyniad Cadeirydd y Cyngor ac adrodd ar hyn i'r Cyngor nesaf.
3. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Cyngor ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad hyn yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau. Mae'r penderfyniad hwnnw yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn unol â'r drefn gyfansoddiadol.

ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi'r adroddiad

Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro – Awdur yr adroddiad

Prif Swyddog Cyllid – “Mae cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg a chywir o'r amgylchiadau. Nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.